



Simon Thomas AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

10 Ionawr 2017

Annwyl Simon,

## **BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Cyllid am eich adroddiad ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru). Rwyf wrthi'n ystyried argymhellion y Pwyllgor a byddaf yn cyfeirio atynt yn ystod y drafodaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn heddiw. Bydd ymateb llawn i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn maes o law. Fodd bynnag, cyn y drafodaeth rwyf am roi syniad i chi o'm hymateb yn arbennig i bedwar o'ch argymhellion; dau y byddaf yn eu derbyn, ond lle y byddai'n ddefnyddiol rhoi rhagor o wybodaeth ac egluro rhai pwyntiau.

**Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi rhagor o wybodaeth yn egluro sut y mae'n bwriadu i'r ddeddfwriaeth bennu sut y bydd yn dosrannu'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy ar drafodiadau eiddo trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon drafod materion fel "dosrannu teg a rhesymol", a rhoi eglurder ar y gofyniad am ddau drosglwyddiad ar gyfer trafodiadau trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn unrhyw ystyriaethau yng Nghyfnod 2.

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau cydweithrediad rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a CThEM, Y Gofrestrfa Tir ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn perthynas â thrafodiadau eiddo trawsffiniol. Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo, a chyn i Gyfnod 2 gychwyn rwy'n bwriadu rhannu llythyr gyda'r Pwyllgor a ysgrifennwyd ar y cyd rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a CThEM yn rhoi rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu integredig hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd rhaglen weithredu'r Awdurdod yn datblygu canllawiau clir gyda rhanddeiliaid dros y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch sut y dylai'r gydnabyddiaeth sy'n cael ei rhoi i dir ar bob ochr o'r ffin gael ei dosrannu ar gyfer trafodiadau eiddo croes-deitl at ddibenion treth. Mae'r broses hon eisoes wedi cychwyn: cynhaliwyd gweithdy ar 7 Rhagfyr yn Fforwm Trethi Llywodraeth Cymru, lle ymgynghorwyd gyda'r rhanddeiliaid ar faterion yn ymwneud ag eiddo trawsffiniol. Roedd CThEM, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Gofrestrfa Dir yn bresennol i wrando ar safbwyntiau a sicrhau dull gweithredu cyson o'r cychwyn cyntaf.

Dylid nodi hefyd bod "teg a rhesymol" yn gysyniad sydd wedi'i hen sefydlu mewn cyfraith drethi. Bydd canllawiau sydd eisoes yn bodoli, megis canllawiau a gynhyrwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio<sup>1</sup>, yn ogystal â chyfraith achosion yn berthnasol i'w ddefnydd mewn deddfwriaeth dreth ddatganoledig.

**Argymhelliad 11:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth ar gyfer rhyddhadau priodol ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi Awdurdedig Eiddo a Chynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cyberchnogaeth drwy welliannau yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau na fydd hyn yn datgymell buddsoddiad masnachol mewn eiddo yng Nghymru yn anfwriadol.

Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant i Ran 5 o'r Bil a fydd yn darparu rheol sy'n gosod sut y dylid trin Cynlluniau Contractiol Awdurdodedig Cyberchnogaeth at ddibenion trethi. Bydd hyn yn debyg i'r rheol sy'n berthnasol i Dreth Dir y Dreth Stamp, a gyflwynwyd yn gynharach eleni gan Ddeddf Cyllid 2016. Ni fydd y rheol hon yn rhyddhau Cynlluniau Contractiol Awdurdodedig Cyberchnogaeth rhag treth, ond bydd yn dileu rhwystrau rhag defnyddio Cynlluniau o'r fath yng Nghymru drwy sicrhau nad yw'r Dreth Trafodiadau Tir yn cael ei chodi ar drosglwyddo buddiant o fewn Cynllun, ond yn hytrach ar gaffael eiddo gan y cynllun ei hun yn unig. Yn y ffordd hon, rwy'n gwneud darpariaeth er mwyn i ni gyflwyno rhyddhad i'r broses o ddarparu arian cychwynnol ar gyfer Cynlluniau Contractiol Awdurdodedig Cyberchnogaeth a Chronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo yn y dyfodol. Rwy'n cydnabod y gallai hyn fod yn gam pwysig, gan y gallai ddenu mwy o fuddsoddiad i farchnad eiddo Cymru.

Dylid nodi nad oes angen cyflwyno rheol debyg ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo. Y rheswm am hyn yw bod Cronfeydd o'r fath yn dueddol o gael eu gweithredu drwy strwythurau (megis cwmnïau neu ymddiriedolaethau unedol) y mae Rhan 5 o'r Bil eisoes yn darparu rheolau penodol ar eu cyfer.

Rwy'n ymwybodol o alwadau gan rai rhanddeiliaid i gynnwys rhyddhad cysylltiedig i'r broses o ddarparu arian cychwynnol ar gyfer Cynlluniau Contractiol Awdurdodedig Cyberchnogaeth yn y Bil, a'r ffaith fod rhyddhad cyfatebol o Dreth Dir y Dreth Stamp wedi'i gyflwyno yn gynharach eleni. Fodd bynnag, nid wyf yn ystyried bod achos digon cryf dros gynnwys y rhyddhad yn y Bil ar hyn o bryd. Mae'r rhyddhad hwn yn un newydd, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddechrau dadansoddi ei effaith yng Nghymru (er enghraifft, os oes unrhyw gamddefnydd o ryddhad Treth Dir y Dreth Stamp), ac yn wir i ystyried a yw'n briodol iddo barhau yng Nghymru (gan ystyried, er enghraifft, a oes unrhyw drafodiadau eiddo sy'n gymwys i gael rhyddhad wedi digwydd neu yn cael eu cynllunio), cyn cyflwyno rhyddhad. Os byddaf yn penderfynu, ar sail tystiolaeth sy'n codi, y byddai'n briodol cyflwyno rhyddhad yng Nghymru, byddaf yn cyflwyno'r darpariaethau angenrheidiol drwy reoliadau dan adran 30(6) o'r Bil.

---

<sup>1</sup> [http://app.voa.gov.uk/corporate/publications/Manuals/CapitalGainsTaxManual/sect8/b-cgt-man-s8.html#P75\\_1171](http://app.voa.gov.uk/corporate/publications/Manuals/CapitalGainsTaxManual/sect8/b-cgt-man-s8.html#P75_1171)(gweler paragraff 8.61)

**Argymhelliad 19:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu'r costau amcangyfrifedig diweddaraf cyn trafodion Cyfnod 2, gan gyfeirio'n benodol at gostau TG a chostau sefydlu.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ac wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am gostau sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru wrth basio'r Bil hwn. Y prif gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Awdurdod yw'r bobl angenrheidiol i'w weithredu o fis Ebrill 2018 ymlaen, a darparu gwasanaethau TGCh digidol i gasglu a rheoli trethi.

Gosodwyd yr adroddiad blynyddol diweddaraf gan Weinidogion Cymru ar Ddeddf Cymru 2014 gerbron y Cynulliad ar 14 Rhagfyr 2016, ac mae'n cadarnhau ein hamcangyfrif presennol o'r costau sydd heb newid ers eu cyhoeddi llynedd. Byddaf mewn sefyllfa i ddarparu rhagor o wybodaeth am y costau cyn hir, pan fyddwn yn gwybod mwy am ffurf yr Awdurdod ac wedi cadarnhau costau'r gwasanaethau digidol.

Rwy'n bwriadu ysgrifennu at y Pwyllgor, cyn cychwyn ar Gyfnod 2, gan nodi beth sy'n digwydd ac erbyn pryd - bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith i ddatblygu amcangyfrifon o'r costau a phryd y bydd amcangyfrif diwygiedig ar gael. Hefyd hoffwn roi briff i Aelodau'r Pwyllgor ar y gwaith o sefydlu'r Awdurdod.

Yn olaf, mae **Argymhelliad 10** yn dweud bod angen ymgynghoriad llawn a helaeth ar gyfraddau a bandiau cyn penderfyniad Llywodraeth Cymru. Yn fy marn i, mae'r penderfyniad ynghylch gosod cyfraddau a bandiau treth yn un o brif swyddogaethau'r llywodraeth. Mae'r farn hon wedi'i hategu gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Dreth Trafodiadau Tir, a ddywedodd yn bennaf (pan wnaed unrhyw sylw o gwbl) bod gosod cyfraddau a bandiau yn fater polisi i Lywodraeth Cymru.

Yn bwysig iawn, nid oes unrhyw gyswllt wedi'i osod gan Lywodraeth y DU na Llywodraeth yr Alban i ymgynghori cyn gosod cyfraddau. Yn hytrach, cydnabyddir mai'r Llywodraeth ddylai wneud y penderfyniadau hyn. Fe fyddaf, wrth gwrs, yn parhau i drafod gyda rhanddeiliaid a sefydliadau am y mater pwysig hwn, a gwranddo ar eu barn. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi papur ymchwil ar 15 Medi yn darparu'r cyd-destun ehangach ar gyfraddau a bandiau a'r cyd-destun economaidd sy'n gefndir iddynt. Roedd y papur yn tynnu sylw rhanddeiliaid at nifer o faterion a fydd yn cael eu hystyried yn drylwyr cyn gosod cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir.

Ar ben hynny, fel y mae'r Pwyllgor yn gwybod, rhaid i'r set gyntaf o reoliadau sy'n pennu'r cyfraddau a'r bandiau treth gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad a'u pasio ganddo cyn y gallant ddod i rym - gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Byddai rheoliadau dilynol i amrywio cyfraddau a bandiau treth yn destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol dros dro - a'r prif nod fydd atal rhagbrynu. Mae hyn hefyd yn galluogi i unrhyw amrywiad i'r cyfraddau a'r bandiau treth ddod i rym ar y dyddiad y caiff y rheoliadau eu gwneud (eu llofnodi) a'u cyflwyno.

Rwy'n hyderus y bydd hyn yn sicrhau fod digon o gyfle i graffu ar y fframwaith cyfraddau a bandiau ar yr adeg briodol, a sicrhau ei fod yn briodol i Gymru.

Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig pwysleisio bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o reoliadau, yn unol â'r Cod a gyhoeddwyd dan adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwy'n bwriadu cynnal asesiad o'r fath wrth wneud y rheoliadau yn gosod y cyfraddau a'r bandiau. Mae hyn oll yn

golygu nad wyf wedi fy argyhoeddi bod angen ymgynghoriad ffurfiol, llawn a helaeth ar gyfraddau a bandiau, ac ar y sail honno ni fydd modd i mi gefnogi'r argymhelliad hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth a geir yn y llythyr hwn yn rhoi'r eglurhad yr oedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno ei gael.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**Mark Drakeford AM/AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government